Croeso Cymru

Safon Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynnwys

Adran	Manylion		Tudalen
1	**Meini Prawf Craidd**		**2**
2	**Mae Ansawdd yn Bwysig**		**3**
	2.1	Ein Hymrwymiad i Chi	3
	2.2	Asesu Ansawdd	4
	2.3	Beth yw Ansawdd?	4
3	**Sut rydym ni'n Mesur Ansawdd?**		**5**
4	**Asesu Ansawdd: Beth fydd eich aseswr yn ei ystyried?**		**8**
	4.1	Cyn cyrraedd	8
	4.2	Cyrraedd	9
	4.3	Yr Atyniad	11
	4.4	Y Gweithgaredd	14
	4.5	Y Daith	15
	4.6	Glendid	16
	4.7	Tai Bach	18
	4.8	Arlwyo	18
	4.9	Manwerthu	21
	4.10	Staff	22
5	**Gwneud eich Atyniad yn Hygyrch i Bawb**		**24**
6	**Cynaliadwyedd: Cynnal Busnes yn Well Fyth**		**25**

1 Meini Prawf Craidd

Asesiad sydd wedi'i seilio ar ansawdd yw Cynllun Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr Croeso Cymru, ac mae'r achrediad yn adlewyrchu profiad ymwelwyr ac ansawdd y cynnyrch a'r gwasanaethau a gynigir gan yr atyniad a'i staff. Mae'r asesiad wedi'i seilio ar God Ymarfer Cenedlaethol Croeso Cymru, y mae'n ofynnol ymrwymo iddo i gymryd rhan yn y cynllun. Mae hyn yn sicrhau bod pob atyniad yn gweithredu yn unol â'r safonau gofynnol. Mae Cod Ymarfer Cenedlaethol Croeso Cymru ar gyfer Atyniadau i Ymwelwyr ar gael ar dudalen 2. Mae hyn yn esbonio'r meini prawf a fodlonir gan bob atyniad sy'n cymryd rhan yn y cynllun ansawdd.

Rhwymedigaethau Statudol

Bydd y rhwymedigaethau hyn yn amrywio o un atyniad i'r nesaf, yn dibynnu ar ei natur a'i gwmpas. Mae angen i bob atyniad feddu ar yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol neu indemniad tebyg gan y Llywodraeth, yn ogystal â chydymffurfio â'r holl reoliadau cynllunio, iechyd, diogelwch a thân perthnasol.

Awgrymiadau a Chynghorion

Diogelwch

- Mae ystod eang o ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch yn berthnasol i'r diwydiant atyniadau o ganlyniad i natur amrywiol yr atyniadau a geir ynddo. A ydych chi'n gyfredol ac yn cydymffurfio'n llawn?
- A ydych chi'n ymwybodol o'r rheolau sy'n berthnasol i'r math o atyniad sydd gennych chi?
- A oes gennych chi asesiadau risg tân cyfredol ar gyfer yr adeiladau yn eich atyniad?
- A yw'r rhai sy'n trin bwyd yn derbyn hyfforddiant a goruchwyliaeth briodol?
- A ydych chi'n cynnal archwiliadau iechyd a diogelwch rheolaidd?
- Gwnewch yn siwr fod gennych chi bolisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus da.

Y Cod Ymarfer Cenedlaethol ar gyfer Atyniadau i Ymwelwyr

Mae'r perchennog a'r rheolwyr wedi ymgymryd i wneud y canlynol:

1 Darparu disgrifiad cywir o amwynderau, cyfleusterau a gwasanaethau'r Atyniad mewn deunyddiau hyrwyddol.

2 Nodi ar yr holl gyfryw ddeunydd hyrwyddol unrhyw ofynion ar gyfer archebu o flaen llaw ac unrhyw gyfyngiadau o bwys ar fynediad.

3 Croesawu pob ymwelydd yn gwrtais a heb wahaniaethu mewn perthynas â rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, hil, crefydd neu gred. Parchu gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 trwy wneud addasiadau 'rhesymol' er mwyn gwella'r gwasanaeth i bobl anabl a sicrhau bod Datganiad ynghylch Mynediad ar gael sy'n disgrifio'r agweddau hygyrchedd ar ymweld â'r Atyniad.

4 Disgrifio'n gywir ac arddangos yn eglur:

   a) Unrhyw daliadau mynediad, gan gynnwys taliadau gwasanaeth a threthi lle y bônt yn berthnasol, ac unrhyw daliadau ychwanegol am atyniadau unigol neu arddangosfeydd arbennig.

b) Dyddiadau ac oriau gweithredu, gan gynnwys agor a chau.

5 Darparu cyfeiriad post, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn a chyfeiriad gwefan mewn deunyddiau hyrwyddol ar gyfer ymholiadau gan ymwelwyr, lle y gellir cael y wybodaeth fanwl a nodwyd yn 1, 2, 3 a 4.

6 Meddu ar bolisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol neu indemniad tebyg gan y Llywodraeth, a chydymffurfio â'r holl reoliadau cynllunio, iechyd, diogelwch a thân perthnasol a'r holl ofynion a rheoliadau statudol eraill perthnasol.

7 Darparu arwyddion a gwybodaeth gyfeiriadu fel y bo'n briodol i'r Atyniad er mwyn cynorthwyo ymwelwyr i ddeall a mwynhau'r Atyniad.

8 Ystyried anghenion ymwelwyr nad yw'r Saesneg neu Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt ac, fel y bo'n briodol i'r Atyniad, gwneud trefniadau sy'n eu galluogi i gael gwybodaeth ddigonol i fwynhau eu hymweliad.

9 Rheoli'r Atyniad mewn modd sy'n sicrhau diogelwch, cysur a gwasanaeth i ymwelwyr trwy gynnal safonau uchel o ran cynnal a chadw, gofal cwsmeriaid, cwrteisi a glendid.

10 Sicrhau bod yr holl staff sy'n cyfarfod ymwelwyr yn gallu darparu gwybodaeth ac arweiniad ynglŷn â'r Atyniad, a bod modd eu hadnabod yn rhwydd fel staff, p'un a ydynt yn weithwyr neu'n wirfoddolwyr.

11 Ystyried yr angen i reoli a gweithredu'r Atyniad mewn ffordd gynaliadwy.

12 Yn unol â natur, maint a lleoliad yr Atyniad, darparu lle i barcio coetshis, ceir, beiciau modur a beiciau, digon o dai bach, a chyfleusterau arlwyo. Os na ellir darparu unrhyw un o'r gofynion hyn ar y safle, dylid darparu gwybodaeth mewn mannau priodol ynglŷn â ble y gellir dod o hyd iddynt yn lleol.

13 Ymdrin yn brydlon ac yn gwrtais â phob ymholiad, cais, archeb, gohebiaeth a sylw gan ymwelwyr a cheisio datrys unrhyw gwynion ar y safle ar adeg yr ymweliad.

14 Darparu cyfleuster ar y safle ar gyfer cofnodi sylwadau, a dangos yn eglur enw a manylion cyswllt (cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost) yr unigolyn y dylai ymwelwyr gyfeirio sylwadau ato.

2 Mae Ansawdd yn Bwysig

2.1 Ein Hymrwymiad i Chi

Bydd ein haseswyr proffesiynol yn gweithio gyda chi er mwyn cynyddu potensial eich busnes neu sefydliad gymaint â phosibl. Yn sgil cymryd rhan yng Nghynllun Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr Croeso Cymru, byddwch yn cael ymweliad bob yn ail flwyddyn. Bydd yr ymweliad yn ystyried pob agwedd ar eich busnes ar gyfer ymwelwyr, o edrych ar eich gwefan a'ch sianeli cyfryngau cymdeithasol i'r adeg pan fo ymwelwyr yn gadael. Bydd pob ymweliad asesu'n cael ei ddilyn gan adborth ar lafar ac adroddiad ysgrifenedig manwl. Diben y ddau beth hyn yw eich helpu i wella profiad ymwelwyr.

Cynhelir yr ymweliad heb fod unrhyw un o'ch staff neu wirfoddolwyr yn gwybod bod aseswr ar y safle. Os yw'ch atyniad yn dymhorol a'ch bod chi am iddo gael ei weld pan fydd yn brysur, gellir gwneud trefniant addas.

2.2 Asesu Ansawdd

Bydd ein haseswyr yn graddio pob agwedd ar eich atyniad, yn seiliedig ar ddisgwyliadau ymwelwyr o ansawdd ac arfer gorau mewn atyniadau ledled Cymru. Mae'r asesiad yn wrthrychol ac ni wneir unrhyw ddyfarniad ar unrhyw agwedd ar eich atyniad yn seiliedig ar duedd bersonol. Nod yr asesiad yw ychwanegu ansawdd heb bylu cymeriad, arddull nac unigrywiaeth eich atyniad.

2.3 Beth yw Ansawdd?

Beth bynnag fo math neu thema eich atyniad, profiad o ansawdd uchel ac ymweliad cofiadwy yw'r hyn y bydd eich ymwelwyr a'n haseswyr yn chwilio amdano.

Bydd eich aseswr yn ystyried meysydd fel y rhai a amlygir isod yn feirniadol, ond bob amser gyda'r bwriad o'ch helpu i wella'ch atyniad.

Y Croeso

- Mae'r croeso cychwynnol mewn atyniad yn rhoi argraff gyntaf bwysig iawn i ymwelwyr ac fe all bennu'r naws ar gyfer gweddill eu hymweliad.
- Yn ogystal â'r croeso wrth gyrraedd, bydd yr aseswr hefyd yn gwirio'r croeso gan staff eraill yn yr atyniad drwyddo draw, gan gynnwys y rhai hynny yn y caffi, y bwyty a'r siop.

Cyflwyniad yr Atyniad

- Cyflwyniad cyffredinol yr atyniad, o gyrraedd i ymadael.
- Yn ogystal â'r prif atyniad, meddyliwch am fannau parcio ceir, tai bach, mannau picnic ac ati. A ydynt yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus drwy gydol y dydd?

Sut rydych chi'n Adrodd eich Stori

- A yw dehongliadau'n eglur ac yn rhwydd i'w darllen?
- A yw'r stori wedi'i hadrodd mewn ffordd y gall ymwelwyr ei deall yn rhwydd?
- A yw'r dehongliadau'n hygyrch i bawb? A oes is-deitlau, Iaith Arwyddion Prydain a disgrifiad sain ar gael lle bynnag y bo'n bosibl? A ydych chi'n cynnig arweiniadau print bras?

Arlwyo a Manwerthu

- Pa mor apelgar a deniadol yw'r bwyd a diod sydd ar gael yn y caffi neu'r bwyty?
- A yw'n rhwydd i gwsmeriaid symud o gwmpas yn y caffi neu'r bwyty?

Effeithlonrwydd, Gofal Cwsmeriaid a Gwybodaeth Staff

- Pa mor dda y mae eich staff wedi'u hyfforddi a pha mor dda yw eu gwybodaeth?
- A ydynt yn dangos eu gwybodaeth yn llawn?
- A yw'r staff yn canolbwyntio ar gwsmeriaid ac a ydynt yn rhoi gwasanaeth gyda gwên?
- A yw staff sy'n dod i gysylltiad â chwsmeriaid wedi cael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o anabledd a chydraddoldeb?

Awgrymiadau a Chynghorion

Y Broses Asesu

- Diben yr asesiad yw rhoi cymorth a chyngor. Arddull, pwnc a chymeriad eich atyniad yw'r hyn sy'n ei wneud yn unigryw. Mae eich aseswr yno i fireinio hynny, nid ei newid.
- Gofynnwch gwestiynau i'ch aseswr, llawer o gwestiynau! Mae ein haseswyr yn gweld atyniadau o bob lliw a llun ledled Cymru ac maent yn barod iawn i gynnig cymorth a chyngor. Maent hefyd yn ceisio nodi a lledaenu arfer gorau yn y diwydiant.

3 Sut rydym ni'n Mesur Ansawdd?

Yn ystod eich ymweliad, bydd eich aseswr yn gwneud dyfarniadau ynglŷn ag ansawdd ar draws pob agwedd ar eich atyniad ac yn rhoi sgôr o 0 i 5 ar gyfer pob elfen.

0 = annerbyniol
1 = ansawdd derbyniol
2 = ansawdd eithaf da
3 = ansawdd da
4 = ansawdd da iawn
5 = ansawdd rhagorol

Ar ddiwedd yr ymweliad, gallant gyfrifo sgôr ganrannol ar gyfer yr atyniad yn gyffredinol ac ar gyfer pob adran o'r atyniad. Mae'n rhaid cael sgôr ganrannol gyffredinol o 60% neu uwch i gyflawni achrediad Atyniad i Ymwelwyr Croeso Cymru.

Yn ogystal, mae'n rhaid i saith o'r wyth sgôr adrannol gyrraedd 60% neu uwch. Dyma'r saith adran allweddol: **Cyrraedd**, **Yr Atyniad**, **Glendid**, **Tai Bach**, **Arlwyo**, **Manwerthu** a **Staff**.

Trwy fynnu isafswm sgôr ym mhob un o'r adrannau allweddol, gall Croeso Cymru a'ch ymwelwyr fod yn sicr bod yr atyniad yn cynnig lefel gyson o ansawdd drwyddo draw.

Rydym ni'n deall na fydd pob atyniad yn darparu'r holl wasanaethau a chyfleusterau a restrir uchod. Yn yr achos hwn, bydd y meysydd sgorio perthnasol yn cael eu dileu o'r broses asesu heb unrhyw effaith anfanteisiol ar y canlyniad cyffredinol.

Enghraifft o Asesiad

Yn yr enghraifft o asesiad, mae Atyniad X yn darparu'r holl gyfleusterau a gwasanaethau a nodir yn y Meini Prawf Craidd ac yn cyflawni'r sgôr ganrannol sy'n ofynnol er mwyn cael ei achredu gan Croeso Cymru. I gyflawni achrediad, mae angen sgôr gyffredinol o 60% o leiaf ac mae'n rhaid i bob adran allweddol gael sgôr o 60% o leiaf. Mae'r sgorau hyn wedi'u bodloni, ond maent yn ffiniol ar gyfer dwy adran a cheir pryder y gallent ostwng islaw'r lefel ofynnol yn yr ymweliad nesaf os na chymerir camau.

Mae'r sgorau'n dangos mai'r meysydd gwannach yn yr adran arlwyo yw'r argraff gyntaf ac addurno, dodrefn a ffitiadau, y mae'r ddau'n siomedig o ran ansawdd. Bydd yr aseswr yn manylu'r rhesymau dros hyn wrth roi adborth llafar ac yn yr adroddiad ysgrifenedig, ac yn cynnig awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid gwella'r sefyllfa. Mae'r adran cyrraedd yn ffiniol hefyd, ond mae'r holl elfennau unigol wedi cael sgôr 'da' neu uwch. Cynigir cyngor ar draws yr adran ynglŷn â sut y gellid gwella'r sgôr ganrannol gyffredinol.

CYN CYRRAEDD	**Gwir**	**Uchaf**
1. Presenoldeb ar-lein	5	☒ 5
2. Taflen	4	☒ 5
% 90% **Cyfanswm**	9	10

CYRRAEDD	**Gwir**	**Uchaf**
3. Maes Parcio	3	☒ 5
4. Argraffiadau Cyntaf	4	☒ 5
5. Cynllun	3	☒ 5
6. Gwybodaeth i Ymwelwyr	3	☒ 5
% 65% **Cyfanswm**	13	20

65% ond yn ffiniol

ATYNIAD	**Gwir**	**Uchaf**
7. Cynllun	4	☒ 5
8. Ystod y Cynnwys	4	☒ 5
9. Gwybodaeth i Ymwelwyr	4	☒ 5
10. Golwg y tir a'r gerddi	3	☒ 5
11. Golwg Adeiladau (allanol)	3	☒ 5
12. Addurno	4	☒ 5
13. Cyflwyniad	4	☒ 5
14. Dehongliad - Gosodedig	4	☒ 5
15. Dehongliad - Arall	3	☒ 5
% 73% **Cyfanswm**	33	45

Pasio

GLENDID	**Gwir**	**Uchaf**
16. Maes Parcio	4	☒ 5
17. Atyniad	4	☒ 5
18. Tai Bach	5	☒ 5
19. Mannau Arlwyo	5	☒ 5
20. Mannau Manwerthu	5	☒ 5
% 92% **Cyfanswm**	23	25

Pasio

TAI BACH	**Gwir**	**Uchaf**
21. Darpariaeth	4	☒ 5
22. Cynnal a Chadw	4	☒ 5
23. Gosodiadau	4	☒ 5
% 80% **Cyfanswm**	12	15

Pasio

ARLWYO

	Gwir	Uchaf
24. Cynllun	3	☒ 5
25. Awyrgylch	2	☒ 5
26. Addurno	2	☒ 5
27. Bwydlen a dewisiadau	4	☒ 5
28. Ansawdd	4	☒ 5
% 60% **Cyfanswm**	15	25

Pasio ond yn ffiniol

MANWERTHU

	Gwir	Uchaf
29. Rhwyddineb Defnydd	4	☒ 5
30. Arddangosfeydd	4	☒ 5
31. Cyflwyniad	3	☒ 5
32. Ystod y Nwyddau	4	☒ 5
% 75% **Cyfanswm**	15	20

Pasio

STAFF

		Gwir	Uchaf
33. Golwg		4	☒ 5
Derbyniadau	1. Gofal Cwsmer	4	☒ 5
	2. Effeithlonrwydd	4	☒ 5
	3. Gwybodaeth	4	☒ 5
Canllawiau, ac ati	4. Gofal Cwsmer	4	☒ 5
	5. Effeithlonrwydd	4	☒ 5
	6. Gwybodaeth	4	☒ 5
Arlwyo	7. Gofal Cwsmer	3	☒ 5
	8. Effeithlonrwydd	3	☒ 5
	9. Gwybodaeth	3	☒ 5
Manwerthu	10. Gofal Cwsmer	3	☒ 5
	11. Effeithlonrwydd	4	☒ 5
	12. Gwybodaeth	4	☒ 5
% 74% **Cyfanswm**		48	65

Pasio

SGOR UCHAFSWM	**225**
SGOR GWIRIONEDDOL	**168**
CYFANSWM %	**75%**

PASIO

Gweithgareddau a Theithiau

Mae'r Cynllun Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr yn cynnig achrediad i bob math o atyniad, gan gynnwys y rhai hynny sy'n arbenigo mewn Gweithgareddau neu Deithiau. O ran yr atyniadau hynny sy'n darparu gweithgaredd fel prif ffocws eu busnes, fel reid weiren wib, bydd yr aseswr yn cynnal asesiad seiliedig ar weithgaredd. Mae asesiad taith ar gyfer y busnesau hynny sy'n cynnig taith fel eu prif brofiad neu eu hunig brofiad. Gall unrhyw fath o daith gael ei sgorio, gan gynnwys teithiau bws, teithiau cerdded a theithiau cwch.

Bydd y broses asesu yr un fath i raddau helaeth ar gyfer gweithgareddau a theithiau ag y mae ar gyfer atyniadau ymwelwyr, ac ym mhob achos bydd yr aseswr yn gwirio'r elfennau Cyn Cyrraedd, Cyrraedd, Glendid, Tai Bach, Arlwyo, Manwerthu a Staff fel sy'n briodol i'r gweithgaredd neu'r daith. Fodd bynnag, bydd gan bob math o atyniad ei feini prawf sgorio ei hun yn yr adran Atyniad er mwyn sicrhau bod modd asesu'r profiad yn gywir a rhoi adborth perthnasol. Er enghraifft, bydd gweithgaredd yn cael ei asesu yn ôl y cyfarwyddyd a'r oruchwyliaeth a roddir yn ogystal ag i ba raddau y mae offer ar gael, tra bydd taith yn cael ei hasesu yn ôl cysur ac ansawdd y cludiant ac ansawdd a chynnwys y sylwebaeth.

Mae rhagor o fanylion am y meini prawf sgorio ar gyfer atyniadau i ymwelwyr, gweithgareddau a theithiau ar gael ar y tudalennau canlynol.

4 Asesu Ansawdd: Beth fydd eich aseswr yn ei ystyried?

Yn yr adran hon, edrychwn yn fanylach ar yr hyn y bydd eich aseswr yn ei ystyried wrth ddyfarnu pob sgôr sy'n cyfrannu at eich cyfanswm cyffredinol.

Diben y wybodaeth isod yw rhoi syniad i berchennog neu reolwr yr atyniad o ba feysydd y bydd yr aseswyr yn edrych arnynt yn ystod ymweliad, er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer yr ymweliad. Mae'n bwysig nodi y bydd pob asesiad yn cael ei gynnal yng nghyd-destun yr atyniad sy'n cael ei asesu. Bydd y disgwyliadau'n wahanol iawn ar gyfer atyniad mawr a bach, ond bydd yr egwyddorion gwasanaeth i ymwelwyr, dehongli'r pwnc yn dda, gweithgareddau diogel a difyr, bwyd blasus a gyflwynir yn dda, a thai bach glân yn aros yr un fath.

4.1 Cyn Cyrraedd

Mae'r adran hon yn ymwneud â chywirdeb ac eglurder gwybodaeth ar y wefan a chyfryngau cymdeithasol ac unrhyw ddeunydd argraffedig arall, fel taflen neu lyfryn, y gallai'r ymwelydd gyfeirio ato cyn ymweld.

Pan fydd gan atyniad ffi fynediad, bydd angen darparu'r wybodaeth hon fel bod ymwelwyr posibl yn gallu ei gweld cyn cyrraedd. Mae'n fwyaf tebygol y bydd y wybodaeth hon yn cael ei darparu trwy gyfryngau ar y we. Dylai gynnwys amserau agor a phrisiau mynediad. Dylai unrhyw brisiau atodol am arddangosfeydd neu weithgareddau a theithiau ychwanegol gael eu nodi'n eglur hefyd, ynghyd ag amrywiadau tymhorol mewn prisiau. Ni ddylai'r prisiau wrth gyrraedd fod yn fwy na'r rhai a hysbysebir. Dylai Datganiad ynghylch Mynediad fod ar gael ar ffurf dogfen Word y gellir ei lawrlwytho ar gyfer ymwelwyr anabl a phobl eraill sydd ag anghenion mynediad.

Presenoldeb ar-lein

- Bydd yr aseswr yn rhoi cynnig ar wahanol chwiliadau i weld pa mor rhwydd ydyw i ddod o hyd i'r wefan. Pan fydd wedi dod o hyd i'r safle, bydd yn treulio ychydig o amser yn profi ei holl swyddogaethau.
- Bydd yr aseswr yn darllen adolygiadau ac adborth gan ymwelwyr ar safleoedd adolygu amlwg ac yn edrych ar unrhyw gynnwys cysylltiedig ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol.
- Bydd y wybodaeth a roddir ar y safle yn cael ei defnyddio i gynllunio'r ymweliad, fel cyfarwyddiadau, gwybodaeth am docynnau a manylion ynghylch sut i archebu taith.
- Bydd yr aseswr yn ailymweld â'r safle ar ôl yr asesiad. A gyflawnodd yr atyniad yr hyn a addawyd?
- Bydd gwybodaeth am hygyrchedd yn cael ei gwirio. A ellir lawrlwytho Datganiad ynghylch Mynediad ar ffurf dogfen Word?

Awgrymiadau a Chynghorion

Ewch ar-lein

- Rhowch gyfarwyddiadau a mapiau i'ch atyniad, ond bydd llawer o bobl eisiau'r cod post neu'r cyfeiriad yn unig i'w ddefnyddio gyda'u teclyn llywio â lloeren. A yw'r cod post ar eich tudalen 'Cysylltu â Ni' yr un fath â'r cod post sydd ei angen i gyfeirio'r ymwelydd i'r fynedfa?
- Rhowch sylw i'r cynnwys ar eich gwefan a chyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd. A yw'n gyfredol? A yw'n cael ei ddiwygio'n rheolaidd? A yw'n ddiddorol ac yn rhoi llawer o wybodaeth? Mae gwefan yn hollbwysig ac mae presenoldeb ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn dod yn gynyddol bwysig o flwyddyn i flwyddyn.
- Gwnewch yn siwr fod eich gwefan yn hygyrch i gynifer o ddefnyddwyr â phosibl.
- Dylech gynnwys digon o wybodaeth am hygyrchedd eich atyniad. Defnyddiwch luniau lle y bo'n bosibl er mwyn sicrhau bod pob defnyddiwr yn gallu deall y wybodaeth yn rhwydd, yn enwedig y rhai hynny a allai fod ag anghenion arbennig.

Taflen

- Os oes taflen ar gael, bydd yr aseswr yn edrych ar eglurder maint y ffont, y teip a'r lliw, yn ogystal â phwysau ac ansawdd y papur a'r defnydd o luniau o ansawdd da.
- Bydd yn asesu effaith y llyfryn pan fydd ar resel.
- Bydd yn gwirio cywirdeb y llyfryn, gan gynnwys a gyflawnir addewidion, yn ogystal â manylion cyswllt, amserau agor, prisiau a chyfarwyddiadau.
- A gyfeirir at y Datganiad ynghylch Mynediad a fformatau eraill?

4.2 Cyrraedd

Mae'r maes hwn yn ymdrin â'r adeg gyffredinol pan fydd ymwelwyr yn cyrraedd, gan gynnwys arwyddion, parcio a rhwyddineb mynediad. Mae'n rhaid i ffyrdd mynediad, meysydd parcio, mannau parcio hygyrch, llwybrau a grisiau fod ag arwyneb priodol ac mewn cyflwr da. Lle y bo'n briodol, mae'n rhaid darparu goleuadau digonol mewn mannau er mwyn sicrhau diogelwch ymwelwyr. Dylai arwyddion cychwynnol fod

wedi'u cynnal a'u cadw'n dda a dangos yr amserau agor, yr ystod lawn o brisiau ac unrhyw gyfyngiadau mynediad yn eglur naill ai y tu allan i'r fynedfa neu wrth y fynedfa.

Maes Parcio

- Bydd yr aseswr yn adolygu ansawdd a chyflwr yr arwyneb parcio, ni waeth pa fath o arwyneb ydyw.
- Bydd hefyd yn gwirio rheolaeth barcio, arwyddion a llifoedd traffig, yn ogystal â mesurau gostegu traffig ac ansawdd gweithredu a gwahanu ceir rhag cerddwyr.
- Edrychir ar sut mae mannau parcio wedi'u marcio, gan gynnwys parcio blaenoriaeth mewn mannau addas a mannau parcio i ymwelwyr anabl a theuluoedd.
- Os oes taliadau parcio ar waith, sut y caiff gwybodaeth amdanynt ei chyfleu a sut y cânt eu rheoli?
- Asesir hygyrchedd rhwystrau parcio a pheiriannau tocynnau o safbwynt cwsmeriaid anabl.

Yr argraff gyntaf

- Bydd yr aseswr yn edrych ar yr holl dir a gerddi, o'r fynedfa i'r mannau talu, yn ogystal â'r holl adeiladau a welir cyn mynd i mewn i'r atyniad; tu blaen y prif adeilad, porthdy, ysguboriau ac ati.
- Bydd yn edrych ar gyflwr llwybrau a lefel goleuadau, os yw goleuadau'n debygol o fod yn angenrheidiol.
- Edrychir ar fannau storio a gweithio. A oes biniau i'w gweld y gellid eu cuddio? A yw mannau cynnal a chadw yn daclus?

Cynllun a rheoli'r pwynt mynediad

- A oes rhyddid i symud o gwmpas? Meddyliwch am ymwelwyr sydd â chadeiriau gwthio a defnyddwyr cadeiriau olwyn.
- Sut y rheolir llif ymwelwyr? A oes systemau unffordd ar gyfer mynd i mewn a gadael, sawl pwynt mynediad, giatiau tro, mynedfa ar wahân ar gyfer grwpiau, neu drefniadau priodol eraill? Pan fo amserau ciwio hwy yn bosibl, a ddarperir rhyw fath o "adloniant", fel sgriniau fideo sy'n hyrwyddo gweithgareddau a nodweddion allweddol i gynyddu'r disgwyliad? A ellid defnyddio'r amser ciwio i lenwi ffurflenni Cymorth Rhodd, lle y bo'n berthnasol?
- A oes llwybrau mynediad a gadael eraill ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn, yn enwedig o ran reidiau?

Awgrymiadau a Chynghorion

Yr argraff gyntaf

- Mae'n bosibl y byddwch chi wedi buddsoddi llawer iawn o amser, arian ac ymdrech mewn un agwedd benodol ar eich atyniad, a gwefan i'w hategu, ond peidiwch ag anghofio'r argraff gyntaf hollbwysig.
- Nid ymwelydd go iawn yw ymwelydd hyd nes y bydd wedi prynu tocyn, felly peidiwch â gadael i eiliad o siom wrth gyrraedd beri iddynt droi ar eu sodlau neu ddechrau'r ymweliad yn ddigalon.

- A yw'r holl arwyddion allanol yn gyfredol ac mewn cyflwr da?
- A yw'r maes parcio mewn cyflwr da ac a yw'r holl fannau yn lân, heb sbwriel ynddynt?
- A yw'r tir a'r gerddi cystal â'r tu mewn i'r atyniad?
- A yw mannau allanol yr holl adeiladau mewn trefn dda?
- A yw'r argraff gyntaf yn rhagorol bob tro?

Arwyddion a Gwybodaeth i Ymwelwyr

- A yw taflenni ymwelwyr yn rhwydd i'w darllen ac a yw ymwelwyr yn gallu cael hyd i'w ffordd yn rhwydd gan ddefnyddio mapiau safle a chynlluniau llawr? Mae defnyddio pictogramau ar gyfer cyfleusterau fel tai bach, arlwyo, manwerthu a meysydd parcio yn symleiddio lleoliadau ac yn hwyluso cyfeirio.
- Gall fod yn fuddiol defnyddio arddull safonol a chorfforaethol, a bydd hynny'n ychwanegu at y cyflwyniad cyffredinol. Mewn atyniadau llai o faint, gellir darparu gwybodaeth argraffedig o ansawdd da mewn modd darbodus gan ddefnyddio dulliau cyhoeddi bwrdd gwaith mewnol, ond mewn atyniad mwy o faint, gellid disgwyl deunydd a argraffwyd yn broffesiynol.
- Mewn atyniadau mwy o faint, mae'n bosibl y bydd angen gosod pwyntiau gwybodaeth a dosbarthwyr taflenni mewn lleoliadau priodol o amgylch yr atyniad. Gellid defnyddio codau QR hefyd er mwyn helpu i roi gwybodaeth ychwanegol i'r ymwelydd.
- Lle y bo'n bosibl, defnyddiwch fyrddau gwyn, byrddau sialc, wynebau cloc ar gyfer amserau neu fyrddau gwybodaeth delltog, fel y gellir diweddaru gwybodaeth yn rhwydd ac yn rheolaidd.

4.3 Yr Atyniad

Mae'r adran hon yn edrych yn fanwl ar brofiad yr ymwelydd, gan ymdrin â phopeth o ansawdd y cyflwyniad a'r dehongliadau i'r arwyddion a'r wybodaeth i ymwelwyr. Dylai cynllun yr atyniad ganiatáu mynediad ymarferol i bob man, boed hynny trwy lif rhydd neu gyfeiriedig, a ategir gan arwyddion eglur sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Dylai ystod y cynnwys fod yn briodol i'r thema gyffredinol a dderbyniwyd ar gyfer yr atyniad. Lle y bo'n bosibl, dylai'r holl arddangosion neu nodweddion gael eu cyflwyno'n effeithiol gan ddefnyddio cyfryngau priodol, er mwyn sicrhau dehongliad cywir. Dylai pob rhan o'r atyniad fod mewn cyflwr da, gyda goleuadau priodol er mwyn sicrhau amgylchedd diogel. Mae angen i offer gael ei gynnal a'i gadw er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn gweithio fel y dylai. Os oes dolen glyw ar gael, dylai fod yn gweithio'n iawn a dylid gosod arwyddion lle y mae ar waith.

Cynllun a llif ymwelwyr

- Sut y rheolir llif ymwelwyr? Fe allai fod yn llif rhydd, llif dilyniannol a reolir neu lif cronolegol. Ym mhob achos, fe ddylai gael ei gynllunio'n ofalus, heb i ymwelwyr gael eu drysu gan leoliad arddangosiadau neu arddangosion.
- Lle y ceir cyflwyniad bwrdd stori neu linell amser, gallai llifoedd clocwedd ei gwneud yn rhwyddach i bobl ddarllen y rhain. Gallai llwybrau ôl troed neu farcwyr llif tebyg gynorthwyo hefyd.

- A all ymwelwyr symud yn rhydd heb i unrhyw dagfeydd ffurfio? A oes mannau mynediad cyfyngedig neu lifoedd dwyffordd a orfodir sy'n rhwystro symudiad? Ystyriwch ddulliau o liniaru'r llif, fel tocynnau amser penodol.
- A yw'r lle sydd ar gael yn caniatáu ar gyfer rheoli ciwiau'n effeithiol?
- Sut y bodlonir anghenion ymwelwyr? A oes llwybrau arbennig i oedolion a phlant ag anabledd dysgu, llwybrau i blant, teithiau cerdded awyr agored, llwybrau fferm? A ydynt wedi'u cyfeirbwyntio i ddangos pellter a hyd?
- A oes camau wedi'u cymryd i sicrhau bod ymwelwyr yn gallu symud o gwmpas yn ddiogel? A yw pileri a mannau neu ddrysau gwydrog wedi'u marcio'n eglur?
- A ddarperir man tŷ bach a phowlen ddŵr ar gyfer cŵn cymorth?
- Lle y mae lifftiau ar gael, a ydynt yn hygyrch gyda dangosyddion llawr gweledol, cyhoeddiadau clywadwy ac intercom argyfwng sy'n cydweddu â chymhorthion clyw?

Ystod y cynnwys o gymharu â disgwyliadau

- Pa mor berthnasol yw ystod y cynnwys o fewn cyd-destun cyffredinol yr atyniad?
- A fodlonir neu rhagorir ar ddisgwyliadau ymwelwyr, neu a allent gael eu siomi? Ystyriwch y wybodaeth a'r addewidion a wneir ar y wefan ac mewn deunydd hysbysebu arall.
- Pa mor eang yw'r farchnad ymwelwyr a'r ystod diddordebau ac oedrannau y mae'n ei bodloni?
- A yw'r ystod yn ddigonol i adlewyrchu'r pwnc neu'r thema? Os yw'n rhy brin, gallai leihau ansawdd profiad yr ymwelydd.
- Pa mor ddilys yw'r cynnwys? Gallai llawer o bobl sy'n frwdfrydig ynglŷn â'r pwnc neu'r thema ddefnyddio'r atyniad fel ffynhonnell gwybodaeth i gyfeirio ati, fel mewn rheilffordd stêm, amgueddfa oes a fu neu amgueddfa ryfel. Bydd angen i'r eitemau a arddangosir fod yn ddilys ac wedi'u dehongli'n gywir; neu os yw eitem yn atgynhyrchiad, mae'n rhaid datgan hynny'n eglur.
- A oes cydbwysedd i'r ystod? A yw'n caniatáu dealltwriaeth eglur o'r berthynas rhwng arddangosion neu arddangosiadau? Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw stori neu gyfres o ddigwyddiadau'n cael ei chyfleu/eu cyfleu.
- Pa mor fanwl yw'r cynnwys? Os yw'r atyniad yn arbenigol, fel amgueddfa ceir o dras, byddai angen i'r cynnwys fod yn ddigon manwl i ymdrin â'r pwnc yn effeithiol, ond nid mor fanwl ag i orlethu ymwelwyr.
- Sut y dehonglir rhannau o'r atyniad nad ydynt yn hygyrch i rai pobl o bosibl? A oes rhith-deithiau ar gael?

Arwyddion a gwybodaeth i ymwelwyr

- Bydd yr aseswr yn edrych ar y defnydd o arwyddion cyfeiriad, arwyddion mynegbost, byrddau cyfeiriadu, cynlluniau a byrddau arddangos.
- A yw cynlluniau safle'n cynnwys dangosyddion 'Rydych chi yma'? A yw cynlluniau cyfeiriadu yn gwbl gyffyrddadwy a chydnaws â'i gilydd?
- A yw'r arwyddion yn dilyn arddull gorfforaethol, gan adlewyrchu arddull arwyddion cyffredinol o'r adeg cyrraedd ymlaen?
- Pa mor ymarferol ac effeithiol yw lleoliad yr arwyddion? A yw adeiladau, llystyfiant neu arwyddion eraill yn cuddio unrhyw arwyddion?

- A oes unrhyw arwyddion sy'n ddryslyd?
- A yw'r arwyddion yn wydn ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, gan ddangos gwybodaeth a chyfarwyddiadau cyfredol?
- Pa mor rhwydd ydyw i ddarllen yr arwyddion? Yr hyn sydd fwyaf effeithiol fel arfer yw llythrennau mawr a bach, ffont eglur, dim testun dros ddelweddau a chyferbyniad eglur rhwng y testun a'r cefndir.
- Dylid osgoi defnyddio arwyddion dros dro neu arwyddion mewn llawysgrifen os ydynt yn rhoi argraff wael. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, gallai arwyddion mewn llawysgrifen fod y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gwybodaeth gyfredol, fel byrddau sialc mewn atyniad fferm.
- Gallai arwyddion laminedig fod yn ddefnyddiol mewn atyniadau llai o faint at ddefnydd dros dro, ond mae angen iddynt gael eu gosod yn iawn yn hytrach na'u pinio neu eu styffylu.
- A ddarperir llwybrau dynodedig ac argymelledig ar gyfer ymwelwyr anabl a chadeiriau gwthio?
- A oes terfynellau gwybodaeth ar gael ac a yw'r rhain yn cynnwys fersiynau sain, fideo ag is-deitlau neu Iaith Arwyddion Prydain?
- Lle y darperir mynedfa hygyrch arall neu fynediad trwy ramp, a oes arwyddion da ar ei chyfer/gyfer?

Golwg y tir a'r gerddi

- Bydd yr aseswr yn edrych ar gyflwr cyffredinol yr holl dir a gerddi yn yr atyniad. A yw'r lawntiau a'r gwelyau blodau wedi'u cynnal a'u cadw'n dda? Rhoddir ystyriaeth i adeg y flwyddyn.
- A yw'r llwybrau mewn cyflwr da?
- A yw'r ffensys a'r giatiau mewn cyflwr da?

Golwg adeiladau (allanol)

- Edrychir ar gyflwr cyffredinol y tu allan i'r adeiladau ar y safle, gan gynnwys y prif adeilad neu adeiladau ac unrhyw dai allan ar dir yr atyniad.
- Bydd yr aseswr yn edrych ar yr addurno allanol, cafnau a pheipiau glaw a phibellau dŵr.
- Mae'r adran hon yn cynnwys cyflwr ffyrdd a llwybrau hefyd.

Addurno a chynnal a chadw (mewnol)

- Asesir adeiladwaith mewnol yr holl adeiladau, p'un a ydynt yn adeileddau modern neu'n blastai.
- Bydd ansawdd a chyflwr yr holl addurno'n cael ei gynnwys, fel paentio waliau a nenfydau, gwaith pren, papur wal a ffabrigau wal.
- Os nad oes angen unrhyw addurno, bydd yr aseswr yn edrych ar ansawdd a golwg y deunyddiau y mae'r adeilad wedi'i wneud ohonynt.

Cyflwyniad arddangosiadau

- Defnyddir ystod eang o wahanol fathau ac arddulliau o arddangosiadau mewn atyniadau i ymwelwyr.
- Bydd yr aseswr yn asesu o fewn cyd-destun yr atyniad a'i bwnc.

- A yw'r goddrych yn cael ei arddangos yn y ffordd orau bosibl?

Ansawdd dehongliadau – gosodedig

- Mae dehongliad gosodedig yn berthnasol i ddehongliad ysgrifenedig ar fyrddau arddangos o amgylch yr atyniad ac unrhyw ddehongliad ysgrifenedig ychwanegol, fel taflenni ac arweinlyfrau.
- Bydd yr aseswr yn ystyried perthnasedd y wybodaeth a sut mae'n llifo o amgylch yr atyniad. A yw'n cael ei dangos mewn trefn resymegol er mwyn ennyn diddordeb yr ymwelydd?
- A yw'r wybodaeth yn rhwydd ei darllen a'i deall? Er enghraifft, a ddefnyddir maint ffont addas ac a yw'r wybodaeth wedi'i hysgrifennu mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb?
- Os defnyddir termau technegol, a yw'r rhain yn cael eu hesbonio i ymwelwyr?

Ansawdd dehongliadau – arall

- Mae dehongliad arall yn cynnwys pob math arall o ddehongliad, gan gynnwys sain, trawsgrifiad o ddehongliad sain, cyffyrddol, arddangosiadau a theithiau tywysedig.
- A yw'r wybodaeth yn ddiddorol ac yn berthnasol, gan helpu i gynnal diddordeb ymwelwyr yn y pwnc?
- Os defnyddir termau technegol, a yw'r rhain yn cael eu hesbonio?
- A yw'r dull dehongli'n rhwydd i bob ymwelydd ei ddefnyddio? Er enghraifft, os oes arweiniad sain ar gael, a yw'n rhwydd adnabod pa rannau o'r atyniad sy'n berthnasol i'r sylwebaeth?

4.4 Y Gweithgaredd

Cyngor, arweiniad a chyfarwyddyd

- Bydd yr aseswr yn edrych ar yr holl gyngor, arweiniad a chyfarwyddyd a gynigir i'r cyfranogwyr, ac yn gwrando arno.
- A yw'r arweiniad a'r cyfarwyddyd a ddarperir yn ddigonol i'r cyfranogwyr deimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus cyn cychwyn ar y gweithgaredd?
- A ofynnir am gwestiynau a'u hateb?
- A dawelir meddyliau'r cyfranogwyr, os oes angen?
- A gynigir gwybodaeth ac arweiniad i aelodau'r grŵp nad ydynt yn cymryd rhan? Gallai hyn gynnwys y mannau gorau i weld y rhai hynny sy'n cymryd rhan neu ble i ddod o hyd i luniaeth a thai bach.

Ansawdd yr offer

- Bydd yr aseswr yn edrych ar y prif ddarn neu ddarnau o offer sydd eu hangen i gynnal y gweithgaredd a gynigir.
- A yw'r offer wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac wedi'i gyflwyno'n dda?

Darparu offer ac i ba raddau y mae ar gael

- Mae'r adran hon yn ymwneud â'r offer personol sydd ei angen er mwyn cyfranogi.
- A oes digon o offer ar gael i'r holl gyfranogwyr mewn amrywiaeth o wahanol feintiau?
- A yw'r offer mewn cyflwr da ac yn rhwydd ei ddefnyddio?

Goruchwyliaeth barhaus

- Yma, bydd yr aseswr yn edrych ar ba oruchwyliaeth a gynigir yn ystod y profiad.
- Os oes angen goruchwyliaeth gyson, a ddarperir hynny?
- Os yw'r gweithgaredd yn hunangyfeiriedig, a oes staff ar gael i dawelu meddyliau'r cyfranogwyr os bydd angen?

Arwyddion a gwybodaeth i ymwelwyr

- A ddarperir digon o wybodaeth ac arwyddion i'r cyfranogwyr yn ystod y gweithgaredd? Gallai hyn fod yn wybodaeth am y gweithgaredd neu wybodaeth ac arwyddion ar gyfer y rhai nad ydynt yn cymryd rhan er mwyn cynyddu eu mwynhad o'r safle a gwylio'r gweithgaredd.

Profiad o gymharu â disgwyliadau

- Pan fydd y gweithgaredd wedi'i gwblhau, bydd yr aseswr yn dychwelyd i'r disgwyliadau a grëwyd ynglŷn â'r gweithgaredd gan y wefan a deunydd hysbysebu arall.
- A lwyddodd y gweithgaredd i fodloni'r disgwyliadau hynny?

Awgrymiadau a Chynghorion

Manteisio ar Dechnoleg

- Efallai na fydd technoleg yn rhan o'ch atyniad. I lawer o atyniadau, y ffordd draddodiadol o gyflwyno a dehongli sy'n gweithio orau ac sy'n helpu i osod yr olygfa. Fodd bynnag, meddyliwch am sut mae pobl yn defnyddio technoleg yn eu bywydau a defnyddiwch y dechnoleg honno i'w cyrraedd a chyfathrebu â hwy.
- Mae dyfeisiau ar gael sy'n gallu cynorthwyo ymwelwyr sydd wedi colli eu golwg neu eu clyw i ddehongli eich stori. Adolygwch sut y gallai'r rhain weithio i chi.
- A ydych chi'n cynnig Wi-Fi? Mae'n bosibl na fydd yn berthnasol i'ch atyniad, ond mae pobl am gael eu cysylltu ble bynnag yr ânt y dyddiau hyn. Mae Wi-Fi yn darparu'r gallu i ddefnyddio codau Ymateb Cyflym (QR) yn eich atyniad a bydd yn galluogi ymwelwyr i lwytho eu delweddau eu hunain i safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn ystod eu hymweliad.

4.5 Y Daith

Cyflwyniad i'r daith a gwybodaeth

- Bydd yr aseswr yn edrych ar yr holl wybodaeth a ddarperir i ymwelwyr am y daith y maent ar fin mynd arni, ac yn gwrando arni.
- Gallai'r wybodaeth hon gael ei darparu gan staff wrth i docynnau gael eu prynu neu gan y tywysydd cyn gadael.
- Gallai'r wybodaeth a roddir gynnwys pa mor hir y bydd y daith yn para, ble y bydd yn gorffen a pha un a fydd seibiant cysur a lluniaeth ar y ffordd.

Cysur ac ansawdd cludiant

- Oni bai bod y daith yn daith gerdded, bydd rhyw fath o gludiant yn cael ei ddarparu i ymwelwyr. Bydd hyn yn cael ei asesu o ran cysur ac ansawdd a bydd yr asesiad yn ystyried y math o gludiant a ddefnyddir.

Ansawdd y sylwebaeth a'r dull o'i chyflwyno

- Gallai'r sylwebaeth gael ei chyflwyno mewn amrywiaeth o ffyrdd, ond a yw'n eglur ac yn hygyrch i bawb?
- Bydd yr asesiad yn ystyried lleoliad y daith a'r math o daith wrth asesu'r sylwebaeth. Er enghraifft, gallai fod yn briodol ei chyflwyno mewn gwahanol ieithoedd neu gan ddefnyddio cymhorthion gweledol.

Ansawdd y cynnwys

- Bydd y cynnwys yn amrywio'n fawr o un math o daith i'r llall.
- Bydd yr aseswr yn gwirio bod y daith yn darparu'r cynnwys a hysbysebwyd a bod digon o gynnwys i gynnal diddordeb ymwelwyr ar hyd y daith gyfan.
- A arhosir mewn caffis, bariau neu fwytai, yn briodol i'r daith, ac a yw'r ymwelwyr yn mwynhau hyn?

Diwedd y daith

- Bydd yr aseswr yn gwirio sut mae'r staff yn ymdrin â diwedd y daith.
- A yw'r ymwelwyr yn cael eu gollwng ble y disgwyliasant gael eu gollwng?
- A gynigir cymorth i westeion sydd ag anghenion arbennig?
- A gynigir gwybodaeth ategol a gwybodaeth i symud ymlaen?
- A atebir cwestiynau?

Profiad o gymharu â disgwyliadau

- Pan fydd y daith wedi'i chwblhau, bydd yr aseswr yn dychwelyd i'r disgwyliadau a grëwyd ynglŷn â'r daith gan y wefan a deunydd hysbysebu arall. A lwyddodd y daith i fodloni'r disgwyliadau hynny?

4.6 Glendid

Mae'r adran hon yn cynnwys asesiad manwl o lendid yn yr atyniad drwyddo draw, o'r maes parcio i'r mannau arlwyo a manwerthu. Mae angen cynnal safon uchel o lendid bob amser ar draws yr atyniad ac yn yr holl gyfleusterau ategol.

Maes parcio a mannau cyrraedd

- A yw'r mannau allanol yn ddi-sbwriel?
- A ddarperir digon o finiau? A yw'r biniau'n cael eu gwacáu'n ddigon rheolaidd, yn enwedig ar adegau prysur?
- A yw dodrefn allanol, fel seddau a pheiriannau tocynnau maes parcio, yn cael eu cadw'n lân?
- A yw'r ffenestri'n lân?
- A yw'r lloriau mewnol yn lân? A yw'r gofod mewnol yn lân, yn daclus ac yn ddi-lwch?

Yr Atyniad

- Bydd glendid yr arddangosiadau a'r arddangosion naill ai'n gwella neu'n tynnu oddi ar olwg cyffredinol yr atyniad.
- A oes amserlenni glanhau rheolaidd ac effeithiol?
- A roddir sylw gofalus i fanylion, yn enwedig ar lefel y llygaid ac mewn mannau lle y gallai llwch gasglu, fel ffitiadau golau?
- A yw'r tir a'r gerddi yn yr atyniad yn ddi-sbwriel?

Tai Bach

- Bydd yr aseswr yn edrych ar yr holl gyfleusterau tŷ bach yn yr atyniad drwyddo draw ac yn chwilio am dystiolaeth o amserlenni glanhau, gan wirio eu bod yn cael eu dilyn.
- Edrychir ar bob elfen yn fanwl, gan gynnwys waliau, lloriau, handlenni, nwyddau glanwaith, tapiau, pibellau gwastraff, gwyntyllau echdynnu, brwshys tŷ bach a biniau gwastraff peryglus mewn toiledau hygyrch dynodedig.

Mannau arlwyo

- Bydd yr aseswr yn edrych ar lendid cyffredinol, gan gynnwys y gorchudd llawr a thynnu llwch oddi ar yr holl fannau uchel ac isel.
- A yw byrddau bwyta a chadeiriau yn cael eu clirio a'u glanhau mewn modd amserol wrth i ymwelwyr adael?
- Dylai mannau lle y caiff bwyd ei arddangos a'i weini, fel silffoedd, cabinetau oer a phlatiau poeth, gael eu glanhau'n rheolaidd.
- Dylai llestri, cyllyll a ffyrc, cynwysyddion cyllyll a ffyrc, gwydrau yfed a pheiriannau dosbarthu diodydd fod yn lân.

Mannau manwerthu

- Bydd yr aseswr yn edrych ar lefelau glendid cyffredinol, gan gynnwys tynnu llwch oddi ar arddangosiadau a glanhau'r llawr.
- Dylai'r nwyddau, byrddau a silffoedd fod yn ddi-lwch ac yn daclus.
- Dylai'r mannau talu gael eu glanhau'n rheolaidd.

Awgrymiadau a Chynghorion

Glendid

- Gwnewch yn siwr fod sbwriel yn cael ei gasglu o amgylch y safle, fel y bo'r angen.
- Peidiwch â gadael i finiau orlenwi, a gofalwch eich bod yn cuddio biniau sbwriel o olwg cwsmeriaid.
- Gwnewch yn siwr fod amserlen lanhau ar waith a bod yr holl staff yn ymwybodol ohoni ac yn ei dilyn.

Tai bach

- Ni fydd pob atyniad yn darparu tai bach, ond os ydynt, byddant yn dweud mwy amdanoch nag y gallech feddwl.
- Y tŷ bach fydd y lle cyntaf y bydd llawer o ymwelwyr yn mynd iddo. Gallai cyfleuster tai bach di-raen, sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n wael a heb ei gyflenwi'n ddigonol, beri i ymwelwyr fod yn amharod i ddefnyddio'r caffi neu ailymweld â'r atyniad.
- Gwnewch yn siwr fod eich tai bach yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, eu bod yn cynnwys digon o sebon, tywelion a phapur tŷ bach, a'u bod yn cael eu cadw'n lân ac yn ffres drwy gydol y dydd.
- Os oes gennych chi dŷ bach hygyrch dynodedig, darparwch gyfleusterau o ansawdd da sy'n bodloni'r holl anghenion mynediad, yn hytrach na pheri iddo edrych fel pe bai'n ôl-ystyriaeth neu o safon is na thoiledau eraill.

4.7 Tai Bach

Mae ansawdd tai bach ac ystod y cyfleusterau yn elfen bwysig o brofiad ymwelwyr, yn enwedig i ymwelwyr anabl neu ymwelwyr sydd â phlant ifanc.

Pan ddarperir cyfleusterau tŷ bach, dylent fod mewn lleoliad addas ac yn ddigonol ar gyfer maint yr atyniad. Mae'n rhaid i gyfleusterau tŷ bach gynnwys dalwyr papur tŷ bach, digon o bapur a chyfleusterau digonol ar gyfer golchi a sychu dwylo. Dylai'r holl gyfleusterau tŷ bach gael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u hawyru'n ddigonol. Dylid darparu cyfleusterau tŷ bach hygyrch lle y bo'n bosibl, a dylai'r rhain gael eu cynnal a chadw i'r un safon â'r cyfleusterau tŷ bach eraill. Dylid cadw'r lle troi mewn tai bach hygyrch yn glir a pheidio â'i ddefnyddio ar gyfer storio. Ystyriwch ddarparu cyfleuster "Changing Places" sy'n darparu ar gyfer yr unigolyn a'i ofalwyr, os oes angen.

Darpariaeth, lleoliad a chynllun

- Bydd yr aseswr yn edrych ar ddarpariaeth gyffredinol tai bach yn yr atyniad. A oes digon i ddarparu ar gyfer y niferoedd ymwelwyr cyfartalog?
- Efallai y bydd digon o dai bach ar gael yn gyffredinol, ond a ydynt wedi'u lleoli'n briodol? Mewn atyniadau mwy o faint, yn ddelfrydol, dylent fod mewn mwy nag un lleoliad. Bydd hyn yn cynnwys tai bach sy'n gysylltiedig â mannau arlwyo neu fanwerthu yn ogystal â'r rhai hynny yn y prif atyniad neu barc. Bydd yr aseswr yn ystyried y math o atyniad, er enghraifft gallai fod cyfyngiadau o ran ble y gellir lleoli cyfleusterau mewn eglwys gadeiriol.
- Edrychir ar ddarpariaeth cyfleusterau newid babanod a chyfleusterau hygyrch dynodedig.
- Asesir cynllun a defnyddioldeb y cyfleusterau hefyd.

Addurno a chynnal a chadw

- Bydd yr aseswr yn edrych ar yr holl addurno ac yn asesu ansawdd a chyflwr gwaith paent, teils, growt, ac ati.
- Edrychir ar ansawdd, cyflwr a phriodoldeb y llawr.
- Dylai'r cyfleuster fod wedi'i gynnal a'i gadw'n dda yn gyffredinol.

Gosodiadau a ffitiadau

- Bydd yr aseswr yn edrych ar ansawdd gosodiadau a ffitiadau.
- Wrth edrych ar osodiadau a ffitiadau, bydd yr aseswr yn ystyried mwy na'r tai bach a'r basnau ymolchi yn unig. Bydd yn edrych ar gloeon drysau, dosbarthwyr sebon, biniau, drychau, peiriannau sychu dwylo, dosbarthwyr tywelion papur, ac ati hefyd.

4.8 Arlwyo

Gall ansawdd yr arlwyo fod yn rhan hollbwysig o fwynhad yr ymwelydd o'r atyniad. Gall yr addurno, y gosodiadau a'r ffitiadau fod yn swyddogaethol, ond mae'n rhaid iddynt gael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac mae'n rhaid i'r holl ddodrefn fod yn gadarn ac yn sefydlog ac yn briodol i'r diben a fwriadwyd. Lle y darperir seddau, mae'n rhaid sicrhau bod digon o le i symud o gwmpas, heb rwystrau. Dylai mannau eistedd dan do gael eu gwresogi, eu hawyru a'u goleuo'n ddigonol. Mae'n rhaid i'r gweithrediad bwyd a diod gydymffurfio â'r holl rwymedigaethau cyfreithiol. Dylai'r disgrifiadau ar fwydlenni fod yn gywir a dylai'r holl brisiau gael eu harddangos yn eglur. Mae Croeso Cymru yn annog defnyddio cynnyrch lleol/bwydlenni Cymraeg ac ati. Gellid defnyddio cyfieithiadau Cymraeg i greu ymdeimlad o le.

Cynllun a rhwyddineb defnydd

- A yw ciwiau'n cael eu trefnu'n dda a'u rheoli'n effeithiol? Gallai hyn fod trwy gyfrwng llif a orfodir neu lif rhydd, yn dibynnu ar y math o atyniad a'i faint.
- A all yr ymwelydd symud o gwmpas y cyfleuster yn gyfforddus, gan gynnwys rhwng seddau? A yw'r cynllun yn gweddu i'r farchnad darged, gan gynnwys teuluoedd gyda chadeiriau gwthio ac ymwelwyr hŷn? A ddarperir man gadael cadeiriau gwthio?
- A oes cynllun rhesymegol i'r gwasanaeth cownter? A oes rhannau penodol ar gyfer eitemau penodol ar y fwydlen, e.e. bwydydd oer gyda'i gilydd?
- A yw'r cownter neu ran o'r cownter yn hygyrch i bobl fer, defnyddwyr cadeiriau olwyn a phlant?
- A yw'r eitemau ar gownteri hunanwasanaeth yn amlwg, gyda'r pris wedi'i ddangos yn eglur arnynt ac o fewn cyrraedd y cwsmer?
- Dylai'r caffi neu'r bwyty fod yn gallu ymdopi â newidiadau mewn niferoedd ymwelwyr gyda digon o diliau ar agor ar adegau prysur.
- Os darperir seddau yn yr awyr agored, a ydynt wedi'u lleoli mewn man cyfleus?

Naws ac argraff gyntaf

- Bydd yr aseswr yn edrych ar y cymeriad a'r awyrgylch ym mhob un o'r mannau arlwyo.
- A oes thema i'r cyfleuster?
- A oes cerddoriaeth, ac a yw hyn yn fanteisiol neu'n anfanteisiol?
- A yw'r byrddau wedi'u paratoi'n dda / cyflwyno'n ddeniadol?

Addurno, dodrefn a ffitiadau

- Bydd yr aseswr yn edrych ar yr addurno yn y prif fan arlwyo ac mewn unrhyw ystafelloedd atodol a ddefnyddir gan ymwelwyr, gan gynnwys cyflwr y llawr a'r holl ddodrefn bwyta a ddarperir ar gyfer cwsmeriaid, y tu mewn i'r mannau arlwyo a'r tu allan iddynt.
- A oes dewis o seddau gyda breichiau a hebddynt?
- Dylai cabinetau arddangos bwyd poeth ac oer gael eu cynnal a'u cadw'n dda.
- Dylai cownteri, desgiau talu, mannau casglu cyllyll a ffyrc a byrddau bwydlen fod mewn cyflwr da.

Bwyd: ystod a bwydlenni

- Bydd yr aseswr yn edrych ar yr ystod o fannau arlwyo, o'r prif fwyty i'r caban hufen iâ, ac yn asesu'r ystod lawn o ddewisiadau bwyta ac yfed.
- Bydd hefyd yn gwirio'r ystod o ddewisiadau ar y fwydlen i weld a oes dewisiadau iachus, dewisiadau llysieuol, prydau sy'n defnyddio cynhwysion lleol, bwyd i blant a dewisiadau heb alergenau, fel dim cynnyrch llaeth, gwenith, lactos a chnau.
- A yw'r fwydlen yn dangos dychymyg, yn anarferol neu'n dilyn thema?
- Dylai bwydlen print bras fod ar gael mewn maint ffont 16 o leiaf a math ffont eglur, fel Arial.
- Dylai staff fod ar gael i gynnig cymorth mewn man arlwyo hunanwasanaeth.

Awgrymiadau a Chynghorion

Arlwyo

- Mae'n debygol y bydd eich caffi neu fwyty yn rhan bwysig o brofiad ymwelwyr ac yn elfen bwysig o'ch refeniw.
- A yw ymwelwyr yn ymwybodol o'r dewisiadau bwyta a ble i ddod o hyd iddynt?
- A yw'r ystafell yn cael ei rheoli'n dda ar adegau prysur fel nad yw pobl yn cael eu gwrthod? A yw ciwiau'n cael eu rheoli'n dda ac a yw'r byrddau bwyta'n cael eu cadw'n lân ac yn daclus?
- A yw'r bwydlenni'n ddengar ac yn cynnwys prydau ar thema arbennig a bwyd lleol? Os ydych chi'n cynnig bwyd lleol, nodwch y tarddle. Mae pobl yn hoffi gwybod beth y maent yn ei fwyta.
- Os yw ymwelwyr yn dewis bwyta picnic, a ydych chi'n cynnig ychwanegiadau blasus, megis caban hufen iâ wedi'i leoli'n dda, cacennau neu ffrwythau?
- Mae ymwelwyr a chanddynt ofynion deietegol yn gynyddol gyffredin. Gwnewch yn siwr fod gwybodaeth a darpariaeth resymol ar gael i ymwelwyr sydd ag alergedd neu anoddefgarwch bwyd neu gredoau crefyddol penodol.

Bwyd: ansawdd a chyflwyniad

- Bydd yr aseswr yn profi cynifer o fannau arlwyo â phosibl, trwy gael coffi yn ystod y bore mewn un man a chinio mewn man arall, er enghraifft.
- Bydd yn arsylwi'r hyn sy'n digwydd a'r hyn sy'n cael ei ddweud gan ymwelwyr.
- Bydd cyflwyniad bwyd a diod ym mhob man yn cael ei wirio, o ddiodydd oer mewn oergelloedd i arddangosiadau bwyd poeth.
- A roddwyd sylw i fanylion yn y ffordd yr arddangosir bwyd oer mewn mannau hunanwasanaeth neu wrth ei weini i'r bwrdd?
- A yw bwyd poeth yn edrych yn ffres? Bydd yr aseswr yn ystyried lliw'r llysiau ac ansawdd grefi a sawsiau.
- A yw bwyd poeth yn cael ei weini'n boeth ac ar blât poeth?
- A yw'r bwyd yn cael ei weini fel y disgrifir ar y fwydlen?
- Bydd ansawdd y cynhwysion, y paratoi a'r coginio oll yn cael eu hystyried.

Awgrymiadau a Chynghorion

Gwariant Eilaidd

- Os yw'r amser aros yn yr atyniad yn llai na diwrnod llawn, a anogir ymwelwyr i aros am ginio neu gyrraedd yn gynnar gyda chynigion dengar ar y wefan ac yn yr atyniad?
- A yw'r bwyd a gynigiwch yn cystadlu â dewisiadau eraill yn yr ardal leol o ran pris, ansawdd a dymunoldeb? Archwiliwch y gystadleuaeth leol.
- A oes croeswerthu rhwng y mannau manwerthu ac arlwyo? Er enghraifft, a yw'r siop yn gwerthu bwydydd lleol a flaswyd mewn rhai o'r prydau a gynigir yn y bwyty?
- Os yw pobl nad ydynt yn ymweld â'r atyniad yn gallu mynd i'r caffi neu'r bwyty, a oes ganddo ei hunaniaeth / brand ei hun yn hytrach na bod yn gaffi yn yr amgueddfa yn unig?

4.9 Manwerthu

Mae gwariant eilaidd yn ffynhonnell incwm hollbwysig i nifer gynyddol o atyniadau, ac mae siop i ymwelwyr, ni waeth pa mor fach neu fawr ydyw, yn ffordd allweddol o sicrhau refeniw ychwanegol. Dylai'r addurno, y dodrefn, y ffitiadau a'r gosodiadau oll gael eu cynnal a'u cadw'n dda a bod mewn cyflwr da. Dylai'r holl fannau manwerthu gael eu goleuo'n ddigonol. Dylai'r holl brisiau gael eu nodi'n amlwg.

Rhwyddineb defnydd a llif ymwelwyr

- Pa mor rhwydd ydyw i gwsmeriaid edrych ar y nwyddau, cael mynediad atynt a'u prynu?
- A yw carwselau ac unedau uwch yn amharu ar linellau gweld? A yw arddangosiadau mewn basgedi ar y llawr yn rhwystro mynediad?
- Gallai'r manwerthu fod mewn man a rennir, fel y fynedfa. Os felly, a oes tiliau penodol ar gyfer y ddau fan? A yw'r swyddogaethau unigol yn cael effaith anfanteisiol ar ei gilydd?
- Os nad oes llawer o le ar gael, a yw hynny'n peri i rai ymwelwyr, fel y rhai hynny sydd â phram neu ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, fod yn amharod i edrych o gwmpas? A allai eiliau mwy agored fod yn ystyriaeth realistig?
- Ystyriwch leoliad eitemau. A fyddai rhai'n elwa ar gael eu gwahanu, fel llyfrau a losin? A fyddai rhai'n elwa ar gael eu lleoli'n isel, fel teganau plant?
- A ddarperir cewyll neu fasgedi siopa?

Unedau arddangos, ffitiadau a goleuadau

- Bydd yr aseswr yn edrych ar ansawdd a chyflwr yr unedau arddangos a'r gosodiadau a'r ffitiadau eraill yn y mannau manwerthu, fel cownteri, tiliau a ffitiadau golau cyffredinol.
- Dylai'r amgylchedd siopa fod yn groesawgar i'r holl gwsmeriaid a chaniatáu iddynt edrych o gwmpas yn rhwydd.

Cyflwyniad nwyddau

- A yw'r arddangosiadau'n dangos dychymyg, gan ddefnyddio gwahanol unedau neu gynwysyddion arddangos?
- Pa mor effeithiol yw'r goleuadau arddangos? A ydynt yn goleuo'r cynhyrchion ac yn gwella'r golwg cyffredinol?
- A gynhelir lefelau stoc trwy dynnu eitemau i flaen silffoedd, cylchdroi stoc a sicrhau bod nwyddau darfodus o fewn y dyddiad defnyddio erbyn?
- A yw planhigion yn cael eu gosod yn briodol gydag eitemau ar uchder hygyrch ac wedi'u labelu'n eglur er mwyn dangos lliwiau ac arferion tyfu?
- O ran rhai cynhyrchion, fel persawr a hufen dwylo, a oes poteli profi ar gael?

Ystod a phriodoldeb nwyddau

- Bydd yr aseswr yn edrych ar ystod y nwyddau mewn perthynas â'r proffil cwsmeriaid. A yw'n cyfateb i thema'r atyniad? A yw'r ystod cynhyrchion yn adlewyrchu'r arddangosfeydd cyfredol?
- Os yw'r atyniad ar gyfer teuluoedd neu blant, a oes eitemau ar gael am brisiau amrywiol, gan gynnwys eitemau arian poced?

- Pa mor addas yw'r ystod i'r cymysgedd ymwelwyr? Bydd yr aseswr yn ystyried anghenion plant, oedolion, pobl sy'n frwdfrydig ynglŷn â'r pwnc, arbenigwyr ac ymwelwyr o dramor. Er enghraifft, a oes DVDau mewn fformat tramor ar gael i ymwelwyr o dramor?
- Mewn atyniadau mwy o faint, gallai'r ystod fod yn fwy helaeth, ond a yw'n gweddu i'r math o atyniad ac yn bodloni disgwyliadau ymwelwyr, fel arweiniadau coed mewn gardd goed?

Awgrymiadau a Chynghorion

Gwariant Eilaidd

- A yw'r staff yn gwerthu'n gydwybodol i ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd, fel arweinlyfrau, Cymorth Rhodd, aelodaeth a thocynnau tymor? Gall yr elfen hon o werthu fod yn anghyson yn aml.
- A oes croeswerthu rhwng y mannau manwerthu ac arlwyo? Er enghraifft, a yw'r siop yn gwerthu bwydydd lleol a flaswyd mewn rhai o'r prydau a gynigir yn y bwyty?
- A yw anrhegion a chofroddion yn berthnasol i'r atyniad ac a ydynt yn briodol i'r ymwelwyr targed?

4.10 Staff

Mae'r staff yn eich atyniad yn rhan hollbwysig o brofiad ymwelwyr. Ystyrir yr holl staff yn yr atyniad drwyddo draw, gan gynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud ag ymwelwyr yn rhagweithiol, fel staff yn y prif atyniad, y caffi a'r siop, yn ogystal â garddwyr a thechnegwyr. Nid oes angen i staff wisgo gwisg unffurf neu fathodyn enw, ond dylai fod modd eu gwahaniaethu'n rhwydd o ymwelwyr a dylent ymdrin â phob ymwelydd mewn modd prydlon a chwrtais.

Golwg staff

- Mae hyn yn berthnasol i'r holl staff a welir yn yr atyniad; staff parcio, staff croesawu ymwelwyr, staff atyniad, garddwyr, staff arlwyo a staff manwerthu.
- Dylai staff sy'n ymwneud ag ymwelwyr fod yn rhwydd eu hadnabod.
- Dylai'r staff fod wedi'u gwisgo'n briodol ar gyfer y rôl y maent yn ei chyflawni.
- Yr atyniad sydd i benderfynu ar y math o ddillad neu wisg unffurf a ddefnyddir, ond dylai'r staff fod yn drwsiadus a gwisgo dillad priodol.

Gofal cwsmeriaid

- Mae gofal cwsmeriaid yn ymwneud ag agwedd staff wrth ryngweithio ag ymwelwyr, treulio amser gyda hwy, gwneud mwy na'r disgwyl a gwneud i ymwelwyr deimlo'n gyfforddus ac yn arbennig.
- Gall staff wybod llawer am eu pwnc, ond dylent hefyd allu siarad ag ymwelwyr mewn ffordd gyfeillgar, frwdfrydig a chroesawgar.
- Bydd yr aseswr yn rhoi cyfle i'r staff ddangos eu bod yn gofalu am gwsmeriaid trwy ofyn cwestiynau wrth fynd trwy'r atyniad. Bydd aseswyr hefyd yn arsylwi'r rhyngweithio rhwng staff ac ymwelwyr eraill.

Effeithlondeb

- A yw ciwiau'n cael eu rheoli'n effeithiol?
- A yw derbyniadau'n cael eu trin yn effeithlon?
- A yw teithiau'n gadael yn brydlon?
- Mae effeithlonrwydd staff yn ymwneud â darparu gwasanaeth yn gywir ac mewn modd amserol.
- Gall gwasanaeth aneffeithlon ymwneud â staff gwael, hyfforddiant gwael neu ddiffyg staff.
- Gellid gwella effeithlondeb gwasanaeth trwy weithredu technoleg newydd, ond mae angen hyfforddi'r staff i'w defnyddio'n effeithiol.

Gwybodaeth

- Dylai fod gan aelodau staff wybodaeth dda am eu swydd eu hunain yn ogystal â'r hyn sy'n digwydd yn yr atyniad ehangach.
- Bydd rhai aelodau staff yn cael y cyfle i ddangos eu gwybodaeth yn ystod sgyrsiau a theithiau.
- Bydd yr aseswr yn gofyn cwestiynau wrth fynd o amgylch yr atyniad er mwyn asesu gwybodaeth staff, nid yn unig am eu rôl eu hunain, ond hefyd am yr atyniad cyfan.

Awgrymiadau a Chynghorion

Estyn Allan i'ch Cynulleidfa

- Gall apêl parc thema mawr fod yn amlwg, gan gynnig hwyl i'r teulu ar draws y cenedlaethau a'r gallu i ddenu ymwelwyr yn ôl am ragor.
- Gallai fod angen i atyniad llai o faint a mwy arbenigol ehangu ei apêl a demograffig ei gynulleidfa.
- Gallwch ddefnyddio ymchwil a dadansoddiadau tueddiadau Croeso Cymru sydd ar gael ar y wefan: www.wales.gov.uk/tourism
- A fydd eich stori'n apelio at y rhai sydd eisoes yn ymddiddori ynddi yn unig neu a ellir ehangu ei hapêl trwy ychwanegu diddordeb dynol, neu elfennau eraill o hanes cymdeithasol?
- A ydych chi'n cynnig unrhyw beth i ddifyrru aelodau llai brwdfrydig o'r grŵp sy'n ymweld, fel gerddi, mannau chwarae neu gaffi da, ac a roddir digon o amlygrwydd i'r cyfleusterau ychwanegol hyn yn eich deunydd hysbysebu?
- Bydd gan amgueddfa arbenigol apêl gyfyngedig, ond os gall yr unigolyn sydd â diddordeb ynddi ddangos i weddill y grŵp ei bod yn lle da i fynd am ginio ac i'r plant chwarae, yna byddant yn fwy tebygol o ymweld.

Staff fel Llysgenhadon

- Mae'n debygol y bydd eich atyniad yn cyflogi staff neu'n defnyddio gwirfoddolwyr a fydd yn cyflawni amrywiaeth o swyddi a thasgau er mwyn sicrhau bod yr atyniad yn rhedeg yn ddidrafferth. Bydd rhai aelodau staff yn ymwneud ag ymwelwyr, ond nid pob un.
- Mae'n hanfodol, wrth gwrs, bod gan yr aelodau staff hynny sy'n ymwneud ag ymwelwyr sgiliau rhyngbersonol rhagorol. Treuliwch amser gyda'r aelodau staff

hyn er mwyn sicrhau eu bod yn deall ethos yr atyniad a helpwch hwy i osod y cywair iawn wrth weithredu fel eich llysgenhadon.

- Gallai'r aelodau staff hynny nad ydynt yn ymwneud ag ymwelwyr yn bennaf ddod i gysylltiad ag ymwelwyr o bryd i'w gilydd; y garddwr, aelod o'r staff swyddfa gefn sy'n cerdded trwy'r atyniad, er enghraifft. Treuliwch rywfaint o'ch amser hyfforddi staff gyda hwy er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod beth sy'n digwydd yn eich atyniad a'u grymuso i ymgysylltu ag ymwelwyr fel y bo'r angen. Gallant hwy fod yn llysgenhadon i chi hefyd.
- Bydd gwisgoedd staff a gwirfoddolwyr yn amrywio'n fawr o un atyniad i'r llall. Beth bynnag fo'r gwisgoedd a ddewisir, gwnewch yn siwr fod modd i ymwelwyr adnabod staff yn rhwydd. Hefyd, gwnewch yn siwr eu bod yn portreadu'r ddelwedd yr ydych chi am ei chyfleu yn y ffordd y maent yn cyflwyno eu hunain.
- Gwnewch yn siwr fod aelodau staff sy'n ymwneud ag ymwelwyr yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd a chydraddoldeb.

5 Gwneud eich Atyniad yn Hygyrch i Bawb

Gall atyniadau i ymwelwyr gyflwyno ystod o heriau i bobl anabl ac eraill sydd ag anghenion mynediad. Mewn ymateb i hyn, mae llawer o weithredwyr atyniadau wedi bod yn gwella eu hygyrchedd yn ystod y blynyddoedd diweddar er mwyn sicrhau eu bod yn gallu rhoi croeso cynnes a diogel i bobl anabl.

Maent wedi bod yn gwneud hyn nid yn unig trwy ddarparu ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn lle bynnag y bo'n bosibl, ond hefyd ar gyfer y rhai hynny sydd â nam ar y clyw neu'r golwg, ymwelwyr hŷn, pobl ag anabledd cudd neu unigolion ag anabledd dysgu.

Un elfen allweddol o fodloni anghenion y gynulleidfa eang hon yw darparu gwybodaeth gywir o flaen llaw a fydd yn galluogi pobl anabl, eu teuluoedd, eu ffrindiau a'u gofalwyr i benderfynu a ydynt am ymweld â chi ai peidio. Darperir hyn yn nodweddiadol ar ffurf Datganiad ynghylch Mynediad, ynghyd â delweddau lle y gwnaed darpariaeth benodol.

Un arall yw trwy wneud yn siwr bod eich gwefan mor rhwydd i'w defnyddio a'i deall â phosibl, a fydd yn ei gwneud yn hygyrch i lawer mwy o ddefnyddwyr.

Mae technoleg newydd yn cynnig ffyrdd eraill o wella hygyrchedd, trwy rith-deithiau er enghraifft, lle nad yw mynediad ffisegol yn bosibl i bob ymwelydd. Gall dyfeisiau newydd helpu i drosi taith yn un sy'n cynnwys is-deitlau neu Iaith Arwyddion Prydeinig ar gyfer ymwelwyr byddar neu ymwelwyr sydd wedi colli eu clyw. Gall arloesiadau diweddar o ran dylunio lifftiau helpu i oresgyn problem grisiau, lle nad oedd hyn yn bosibl yn flaenorol.

Rhwymedigaethau Cyfreithiol

Mae gan bob busnes twristiaeth rwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn mynnu bod busnesau'n rhagweld a darparu ar gyfer pobl anabl ac eraill sydd â 'nodweddion gwarchodedig'.

Trwy wneud addasiadau rhesymol i'ch gwybodaeth, hyfforddiant staff a hygyrchedd ffisegol, gan gynnwys trefniadau eraill lle y bo'r angen, byddwch nid yn unig yn helpu i gyflawni eich rhwymedigaethau, ond hefyd yn gwneud eich atyniad yn fwy hygyrch i bawb.

6 Cynaliadwyedd: Cynnal Busnes yn Well Fyth

Ymhell o fod yn ychwanegiad dewisol, mae atyniadau sy'n ymsefydlu dull cynaliadwy yn canfod bod hyn yn helpu i reoli costau a chynyddu'r apêl i ymwelwyr, yn ogystal â gwella eu heffaith ar yr amgylchedd, y gymuned leol a'r economi.

Er nad yw'r awgrymiadau a wneir yn y safonau hyn yn orfodol, fe'u cynhwysir gan eu bod yn cynnig cyfle i wella effaith, effeithlondeb ac apêl eich atyniad.

Gall Croeso Cymru Helpu

Rydym ni o'r farn bod arfer dull cynaliadwy yn gwneud synnwyr da o safbwynt busnes yn ogystal â gwella effaith y sector twristiaeth.

Yn ogystal â'r cyngor rhagarweiniol a geir yma, rydym hefyd wedi datblygu rhai adnoddau i'ch helpu sydd ar gael yn: **www.business.wales.gov.uk/dmwales/sustainable-tourism**

Cymerwch Reolaeth

Mae'n bwysig osgoi dull tameidiog. Yn hytrach, dylech fabwysiadu dull strategol sy'n gwneud y defnydd gorau o amser ac arian cyfyngedig. Mae deall eich effaith bresennol yn hanfodol:

- Mesur i Reoli – Efallai eich bod chi'n darllen, neu hyd yn oed yn cofnodi, costau eich biliau ynni, dŵr a gwastraff, ond bydd datblygu system fonitro yn amhrisiadwy er mwyn helpu i:
  - Gymharu â chyfnodau blaenorol a sefydlu cynnydd
  - Amlygu'r blaenoriaethau y dylid eu targedu ar gyfer rheoli a gostyngiadau
  - Eich rhybuddio am ddefnydd anarferol o uchel fel y gallwch gymryd camau ar unwaith cyn i gostau gynyddu
  - Rhoi gwybodaeth i chi ar gyfer y tro nesaf y byddwch yn cyd-drafod eich contract ynni neu wastraff
- Gall is-fesur fod yn amhrisiadwy o ran cael dealltwriaeth well o berfformiad gwahanol feysydd. Cofiwch gyfuno hyn â niferoedd ymwelwyr a gwariant er mwyn creu ffigurau i'w defnyddio fel meincnodau, fel cost ynni fesul ymwelydd neu litrau o ddŵr a ddefnyddir fesul ymwelydd.
- Ceisiwch ail farn – mae'n amhosibl rhoi dull cynaliadwy ar waith ar eich pen eich hun:
  - Ceisiwch farn y staff – trwy holiadur, cyfarfodydd tîm, timau 'gwyrdd' dynodedig ac ati. A ydynt wedi sylwi ar rywbeth gwahanol i chi? Gwnewch yn siwr fod uwch aelodau staff yn arwain trwy esiampl er mwyn creu diwylliant.
  - Defnyddiwch ddulliau presennol o gael adborth gan ymwelwyr i geisio eu barn a'u syniadau.

Gwresogi

Yn gyffredinol, dyma'r hyn sy'n defnyddio'r mwyaf o ynni mewn adeiladau, ond mae hefyd yn hollbwysig i gysur ymwelwyr a gall effeithio ar gyflwr yr hyn sy'n cael ei arddangos. Dylai blaenoriaethau gynnwys:

- Inswleiddio – Mae cadw gwres i mewn yn lleihau faint y mae angen ei gynhyrchu, ac mae hyn ymhlith y buddsoddiadau mwyaf cost effeithiol. Blaenoriaethwch doeon a waliau, ond peidiwch ag anghofio pibwaith.
- Boeleri – Mae'r rhain yn llai amlwg, ond ymhlith y darnau mwyaf allweddol o offer ar gyfer llinell isaf ac ôl troed eich atyniad:
  - Trefnwch iddynt gael gwasanaeth yn rheolaidd, gan ofyn am brawf effeithlonrwydd. Os yw islaw 80%, ystyriwch gael rhai newydd.
  - Ymgyfarwyddwch â'r rheolyddion gwres er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf, a buddsoddwch mewn rheolyddion mwy soffistigedig sy'n sicrhau bod y boeler yn gweithio dim ond pan fo'i angen, ac i'r lefel sydd ei hangen.
- Drysau allanol – Yn gyffredinol, mae gan atyniadau, sydd yn aml wedi'u rhannu ar draws sawl adeilad, lawer o ddrysau allanol sy'n cael eu hagor a'u cau nifer fawr o weithiau y dydd:
  - Ystyriwch ychwanegu rheolyddion awtomatig neu gynteddau drafft i leihau'r gwres a gollir.
  - Bydd drws â bwlch 3mm yn gadel yr un faint o aer oer i mewn â bricsen sydd ar goll mewn wal (yr Ymddiriedolaeth Garbon), felly gwnewch yn siwr fod seliau atal drafftiau yn cael eu cadw mewn cyflwr da.

Goleuo

Mae creu'r amodau golau priodol yn hollbwysig ar gyfer arddangosiadau effeithiol, creu awyrgylch a galluogi ymwelwyr i ddarllen dehongliadau. Mae cyflawni'r nodau hyn gan ddefnyddio cyn lleied o ynni â phosibl yn golygu canolbwyntio ar:

- Olau am ddim – Manteisiwch i'r eithaf ar olau'r haul trwy gadw ffenestri a goleuadau to yn lân ac yn rhydd rhag rhwystrau. Ystyriwch osod tiwbiau haul hefyd.
- Dewisiadau goleuedig – Mesurir disgleirdeb mewn lwmina. Ceisiwch gyflawni'r disgleirdeb sydd ei angen arnoch am y nifer leiaf o watiau (lwmina fesul wat). Mesurir tymheredd lliw mewn kelvinau – mae 1,000 yn 'gynnes' iawn a 10,000 yn 'oer' iawn. Os ydych chi'n ceisio creu effaith golau cynnes bylbiau gwynias traddodiadol, anelwch am oddeutu 2,700 k.
- Goleuadau LED – Mae goleuadau LED, sy'n gallu cynhyrchu golau llachar ar unwaith ac sydd ar gael mewn amrywiaeth o wahanol fformatau, yn defnyddio cryn dipyn yn llai o ynni ac yn para'n hirach o lawer na mathau eraill o oleuadau. Er eu bod yn ddrutach, bydd y buddsoddiad yn dwyn ffrwyth rhwng tair i bum mlynedd yn nodweddiadol.
- Blaenoriaethwch – Buddsoddwch yn y goleuadau a ddefnyddir fwyaf, gan beidio ag anghofio am oleuadau allanol.

Teithio

Teithio yw rhan gyntaf ac olaf profiad ymwelwyr ac mae'n rhan bwysig o effaith eich atyniad ar yr amgylchedd a'r gymuned leol, felly dylech roi blaenoriaeth i sut mae pobl

yn cyrraedd eich atyniad. Bydd darparu gwybodaeth ragorol am yr ystod ehangaf o ddewisiadau yn cynyddu eich apêl hefyd:

- Hyrwyddo dewisiadau eraill:
  - Cynigiwch gyngor ymarferol, fel amlder gwasanaethau, faint o amser y bydd yn ei gymryd i gerdded neu ba wasanaeth bws i'w ddefnyddio i gyrraedd o'r orsaf drenau. O ran gwasanaethau bws, rhowch wybod i ymwelwyr ble y dylent fynd oddi ar y bws ynghyd â syniad bras o bris tocyn.
  - Os ydych chi'n defnyddio Google Maps, amlygwch y ffaith y gellir chwilio am drafnidiaeth gyhoeddus arno, neu defnyddiwch 'widget' rhad ac am ddim i wefan travelinecymru (**www.traveline-cymru.info**) sy'n darparu gwybodaeth o ddrws i ddrws am drafnidiaeth gyhoeddus, a dewisiadau teithio mewn car ac ar gefn beic.
  - Hyrwyddwch y dewisiadau hyn yn y maes parcio er mwyn i ymwelwyr sy'n dychwelyd fod yn ymwybodol ohonynt.
- Cyrraedd mewn car – Rhowch ddolenni i offer i fod yn ymwybodol ohonynt ac i osgoi'r traffig gwaethaf (**www.traffic-wales.com**).
- Cymhellion a Chyfleusterau:
  - Ystyriwch gynnig tocynnau ar y cyd â thrafnidiaeth gyhoeddus a chynigiwch ostyngiadau neu nodweddion bonws i'r rhai sy'n cyrraedd trwy ddulliau amgen o deithio.
  - Mae rheseli beiciau a mannau gwefru trydan yn ddefnyddiol dim ond os gellir dod o hyd iddynt yn rhwydd. Bydd rhoi amlygrwydd iddynt yn gwneud pobl eraill yn ymwybodol o'r hyn rydych chi'n ei gynnig hefyd.
- Teithiau staff – Anogwch staff i deithio trwy ddulliau heblaw am gar neu cynigiwch gymhellion iddynt wneud hynny, yn enwedig os oes gennych chi staff iau sydd heb gar o bosibl. Gall rhannu car fod yn ddewis arbennig o dda.

Creu eich Dŵr a'ch Pŵer eich hun

Mae costau cynyddol cyfleustodau a mwy o gymhellion yn golygu bod casglu a chynhyrchu eich cyflenwadau ynni a dŵr eich hun yn gallu bod yn fuddsoddiad doeth. Y prif ddewisiadau ar gyfer cynhyrchu ynni yw ynni solar (ffotofoltäig), ynni gwynt ac ynni dŵr. I gynhyrchu gwres, ceir hefyd ynni solar (thermol), biomas (pren) a phympiau gwres (aer, daear neu ddŵr).

Mae gan bob math o dechnoleg ei nodweddion ei hun a fydd yn ei gwneud yn fwy neu'n llai addas i atyniad a lleoliad unigol. Dyma'r pwyntiau allweddol i'w hystyried:

- Effeithlonrwydd yn gyntaf – Bydd camau effeithlonrwydd ynni yn aml yn dwyn ffrwyth yn gyflymach ac yn lleihau faint o ynni adnewyddadwy sydd ei angen.
- Lleoliad – Mae'n hanfodol dod o hyd i'r dechnoleg sy'n gweddu orau i nodweddion yr eiddo a'i leoliad, boed hynny'n gyfeiriad y to neu'r lle sydd ei angen ar gyfer y gosodiad.
- Cyfateb i'r angen – Gwnewch yn siwr fod y math o dechnoleg yn cyfateb i faint, math a phatrwm eich defnydd.
- Gosodwyr – Gofynnwch i osodwr sy'n ymdrin ag ystod o wahanol dechnolegau gynnal arolwg dichonoldeb er mwyn argymell y dechnoleg sy'n fwyaf addas i'ch atyniad.

- Dŵr glaw a dŵr llwyd – O gasgenni dŵr syml i systemau casglu dŵr glaw llawn, mae amrywiaeth o wahanol ddewisiadau ar gael i leihau eich defnydd ar ddŵr prif gyflenwad. Mae'r ynni sydd ei angen ar gyfer systemau dŵr glaw yn golygu y byddant yn addas dim ond pan geir galw uwch, ac mae'n rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i ddefnydd priodol o ddŵr glaw a dŵr llwyd.

Gwastraff

Rydych chi'n talu ddwywaith am wastraff – y pris prynu a'r pris gwaredu – felly mae'n bwysig iawn ei leihau gymaint â phosibl. Dylid rhoi blaenoriaeth i leihau ac ailddefnyddio cyn ailgylchu.

- Bwyd – mae gwastraff bwyd y gellir ei osgoi yn costio £0.46 fesul pryd ar gyfartaledd i fusnesau yn y sector, a thatws ac eitemau pob yw'r rhai mwyaf arwyddocaol. Canolbwyntiwch ar reoli eitemau oes fer yn well, gan gynnig dognau o wahanol faint a dewis o seigiau ychwanegol, cynnig y cyfle i ymwelwyr fynd â bwyd dros ben adref a gwahanu bwyd gwastraff yn eglur. Mae gan www.wrapcymru.org.uk adnoddau rhagorol a gall eich atyniad lofnodi'r 'Cytundeb Gwasanaethau Bwyd a Lletygarwch' sy'n ceisio lleihau pecynnu a faint o wastraff cysylltiedig â bwyd sy'n cael ei ailgylchu, ei gompostio neu ei anfon ar gyfer Treulio Anaerobig.
- Gwahanu ai Peidio – Bydd cynnwys ymwelwyr yn y broses o wahanu gwastraff yn atgyfnerthu arferion ailgylchu da a bydd defnyddio biniau deniadol sydd wedi'u labelu'n dda yn helpu i annog pobl i gyfranogi. Fodd bynnag, mae rhai atyniadau bellach yn manteisio ar wasanaethau casglu gwastraff lle y gwahenir y gwastraff oddi ar y safle. Gall hyn leihau'r gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi, yn enwedig os defnyddir dulliau gwastraff i ynni neu dreulio anaerobig.
- Esboniwch eich polisi gwaredu gwastraff i ymwelwyr fel y gallant werthfawrogi eich ymrwymiad i'r maes pwysig hwn.

Dŵr

Yn yr un modd â gwastraff, rydych chi'n talu ddwywaith – am gyflenwi a gwaredu. Ystyriwch ddefnyddio dŵr yn effeithlon a'r hyn sy'n mynd yn ôl i'r system ddŵr.

- Ystafelloedd ymolchi – Bydd tapiau basn sy'n gweithredu yn ôl synhwyrydd neu dapiau gwthio a/neu awyrog yn lleihau faint o ddŵr sy'n cael ei wastraffu. Bydd sicrhau bod wrinalau yn gweithredu yn ôl synhwyrydd presenoldeb neu ddefnyddio modelau di-ddŵr yn sicrhau arbedion hefyd, tra bydd annog y defnydd o finiau ar gyfer cynhyrchion mislif yn helpu'r amgylchedd morol.
- Ceginau – Gwnewch yn siwr fod peiriannau golchi llestri'n effeithlon ac yn llawn, a defnyddiwch chwistrellau dŵr ar gyfer rinsio cyn golchi. Dewiswch gynhyrchion glanhau ecogyfeillgar a defnyddiwch system rheoli dos er mwyn lleihau costau a'r effaith ar yr amgylchedd naturiol.
- Tir – Ystyriwch dywydd eithafol wrth ddewis planhigion, a defnyddiwch gasgenni dŵr a thechnegau eraill o arbed dŵr i leihau eich defnydd ar y cyflenwad y telir amdano.

Adrodd eich Stori

Gall eich gweithredoedd ychwanegu apêl a diddordeb, felly meddyliwch yn greadigol er mwyn manteisio arnynt i'r eithaf:

- Cydblethu – Yn hytrach na darparu un arddangosiad ar wahân ar fentrau cynaliadwy, integreiddiwch gamau mewn arddangosiadau presennol neu gosodwch arddangosiad ychwanegol mewn man perthnasol i gynyddu diddordeb. Ymgorfforwch gynaliadwyedd mewn adnoddau addysgol neu crëwch daith arbennig ar thema 'werdd' i ysgolion. A allwch chi ddefnyddio brand neu gymeriad i amlygu'r elfen hon yn eich cyfathrebiadau amrywiol?
- Cyfryngau cymdeithasol – Mae cynaliadwyedd yn aml yn cynnwys llawer o gamau bach sy'n gallu bod yn anodd eu rhestru mewn un man, ond gellir eu cyfleu'n effeithiol fesul dipyn trwy gyfryngau cymdeithasol.
- Mae ardystiad yn dangos hygrededd eich gweithredoedd i gwsmeriaid. Mae nifer o sefydliadau annibynnol yn cynnal cynlluniau y cadarnhawyd eu bod yn cynnig safonau cadarn y gall ymwelwyr ymddiried ynddynt ac a all roi'r hyder i chi hyrwyddo eich gweithredoedd. Cyfeiriwch at yr arweiniad Keeping it Real ar wefan Rheoli Cyrchfannau Cymru (**www.business.wales.gov.uk/dmwales**).

I gael rhagor o wybodaeth am gynllun asesu ansawdd Croeso Cymru ar gyfer atyniadau i ymwelwyr, cysylltwch â'r canlynol:

Yr Adran Sicrhau Ansawdd,
Croeso Cymru,
Llywodraeth Cymru,
Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth.
SY23 3UR

Ffôn: 0845 010 8020
E-bost: **quality.tourism@wales.gsi.gov.uk**
Gwefan: **www.wales.gov.uk/tourism**

Rhoddir y wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn ddidwyll a gwnaed pob ymdrech i sicrhau ei chywirdeb. Ni all Croeso Cymru dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw gamgymeriad neu gamddehongliad. Eithrir drwy hyn pob atebolrwydd am golled, siom, esgeuluster neu ddifrod arall a achoswyd trwy ddibynnu ar y wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn.

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN argraffu 978 1 4734 2651 1
ISBN digidol 978 1 4734 2653 5
© Hawlfraint y Goron 2014
WG23946